

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

Cofnodion cyfarfod rithiol 11 Mai 2021 a gynhaliwyd drwy ddefnyddio offer digidol Zoom am 7 yn yr hwyr.		
PRESENNOL		
Daniel Williams	Cynog Prys	
Iestyn Harris	Nerys John	
Casi Roberts	Emyr Gareth	
Eifion Williams	Dafydd Huws	
	Gareth Griffiths - Cynghorydd Sir	
	Wynne Barton - Swyddog Ariannol	
1.0	GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU	
	Yn dilyn y Cyfarfod blynyddol symudwyd ymlaen i'r Cyfarfod misol gyda'r Cynghorydd Iestyn Harris yn llywyddu. Nodwyd ymddiheuriadau Llŷr Evans, Iwan Huws a Lliwen Griffiths-Williams	
2.0	ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR	
	Roedd y Cynghorydd Sir yn bresennol a byddai yn adrodd fel bo'r gofyn.	
3.0	DATGAN DIDDORDEB	
	Dim	
4.0	CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL	
4.1	Cyflwynodd y Swyddog Ariannol adroddiad gwariant mis Ebrill 2021 i'r Cyngor. Derbyniwyd yr adroddiad.	Swyddog Ariannol
4.2	Dywedodd y Swyddog Ariannol ei fod wedi hysbysu'r Cyngor eisoes yn dweud byddai dau fath o Archwiliad Allanol un arferol ag un llawn, byddai un llawn yn cymryd lle unwaith pob tair blynedd. Yn anffodus oherwydd bod cynifer o Gynghorau heb gyflwyno eu hadroddiadau blynyddol 2019 - 2020 ni fydd y drefn yma yn cychwyn hyd nes bydd y rhain wedi eu cwblhau. Felly'r drefn arferol bydd yn parhau am y tro.	Swyddog Ariannol
5.0	CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL	
5.1	Cadarnhawyd Cofnodion mis Ebrill 2021 fel rhai cywir.	CLERC
5.2	Yn codi o'r cofnodion: Cae Chwarae – y gwaith pellach wedi ei wneud ar y cae chwarae. Cost yr offer wed ei dalu. Y Clerc i wneud ymholiadau gyda OBR. Dwr yn arllwys i'r ffordd – Dim ymateb wedi bod oddi wrth Priffyrdd Gwynedd. GG Ffordd ger y Feddygfa – Dim ymateb wedi bod oddi wrth Priffyrdd Gwynedd. GG Y Cynghorydd Sir Gareth Griffiths am wneud ymholiadau ar y materion hyn. Cysgodfan Bws gyferbyn a Cwrt Menai – Y Cynghorydd Daniel Williams am symud ymlaen ar y mater. DW	CLERC
6.0	CEISIADAU CYNLLUNIO	
6.1	Rhif Cais: C21/0424/20/CC Lleoliad: 2 Ffordd Glyder, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4QX Bwriad: Torri a thocio coed sy'n destun gorchymyn gwarchod coed	

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	DIM GWRTHWYNEBIAD	
6.2	Rhif Cais : C21/0447/20/DT Lleoliad: 20 Tai Gwelfor, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4TQ Bwriad : Estyniad un llawr yn y cefn, balconi ar edrychiad blaen yr eiddo ynghyd a llecyn parcio DIM GWRTHWYNEBIAD	
6.3	Rhif Cais : C21/0445/20/LL Lleoliad Plot 11a, Ffordd Caernarfon, Felinheli, LL56 4RZ Bwriad : Cais ar gyfer codi ty tri llawr tair llofft gydag ardal barcio GWRTHWYNEBIAD - Y Clerc i anfon at Wasanaethau Cynllunio Cyngor Gwynedd yn datgan pryder oherwydd y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ardal yma wedi bod testun gofid i'r Cyngor Cymuned ers sawl blwyddyn oherwydd problemau traffig, yn neilltuol cyflymdra amhriodol a goryrru - mae cyfrifiad traffig wedi ei wneud eisoes oedd yn dangos hyn. • Gwelededd i lif traffig oherwydd parcio • Parcio cerbydau gan berchnogion cerbydau sydd yn byw yn ardaloedd eraill o fewn y pentref (Brynffynnon) • Mae'r droedffordd yn gul a dim o safon sydd yn golygu bod pobl a phramiau dwbl yn gorfod cerdded o fewn y ffordd - does dim troedffordd ar ochr arall y ffordd • Byddai cerbydau yn croesi'r droedffordd yn cynyddu peryg i ddefnyddwyr y droedffordd - mae'r droed ffordd yn cael ei defnyddio gan feicwyr oherwydd nid yw'r Lon Las yn bodoli yn rhan yma o'r pentref. • Byddai caniatáu mynedfeydd eraill yn cael effaith ar y parcio drwy eu symud i ardaloedd eraill. • Mae hawl cynllunio yn bodoli ar y safle yma yn barod, ers hynny, mae 4 cais cynllunio arall wedi ei ganiatáu, felly mae'r Cyngor Cymuned o'r farn dylid unrhyw ddatblygiad arall gael ei ystyried fel perthynas i gynllun arafu a thawelu traffig. • Mae gofid hefyd ynglŷn â'r bwriad o leihau'r gilfan aros fel rhan o'r datblygiad. 	
6.4	Rhif Cais: C21/0446/20/LL Lleoliad: 11 Ffordd Caernarfon, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4RZ Bwriad : Cais ar gyfer codi ty tri llawr tair llofft gyda ardal barcio GWRTHWYNEBIAD – GWELER UCHOD	
7.0	PRIFFYRDD, MEINCIAU A CHYSGODFANNAU	
7.1	Y cynghorydd Dan Williams i ymgynghori a chontractwr ynglŷn â dylunio cysgodfan canti lever.	CLERC
8.0	LLWYBRAU A LON LAS	

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

8.1	Is-bwyllgor llwybrau heb gyfarfod hyd yma. Mae safle whatsapp wedi ei greu ar gyfer cael rhannu gwybodaeth. Fe atgoffwyd y Cyngor bod angen trefnu toriad i'r llwybrau ym mis Mehefin yna'r ail ddiwedd mis Gorffennaf ac yna'r trydydd ym mis Medi os byddai'r adolygiad y llwybrau ym mis Awst wedi cydnabod hyn.	CLERC
8.2	Dywedodd y Clerc bod angen symud ymlaen i wneud gwaith cynnal ar ffens llwybr Cerrig yr Afon. Ar hyn o bryd mae amheuaeth ynglŷn â phwy sydd â chyfrifoldeb am y ffens yn y rhan yma. Mae ymholiad wedi ei wneud a Chyngor Gwynedd ond nid oes ymateb wedi dod hyd yma. Credir bod rhan y difrod yn gyfrifoldeb ar Gyngor Gwynedd. Y Clerc i anfon y Wybodaeth sydd i law ar hyn o bryd ynglŷn â'r llwybr i'r Cynghorydd Iestyn Harris ac aelodau'r is-bwyllgor. Y Cynghorydd Gareth Griffiths am anfon at yr Uned Cefn Gwlad ar y mater.	CLERC/IH/GG
8.3	<p>Llwybr Afon Heulyn – rhoddwyd ymateb Cyngor Gwynedd i'r diweddaraf ar y llwybr I'r aelodau. Gweler isod:</p> <p>Llwybr Afon Heulyn - dim ymateb/cydnabod gan berchennog y tir/wal o'r anghenion a rhoddwyd i'w sylw. Angen trafod y cam nesaf a hyn. Unai i Wynedd ymgymryd â derbyn archwiliad ac adroddiad am anghenion ar wal gan beiriannydd allanol a dilyn hyn i weithredu ar anghenion i ddiogelu'r coping llechi. Fydd hyn angen ei drafod hefyd a CADW. Mae Dewi Owen y Swyddog gorfodaeth Hawliau Tramwy i ffwrdd o'i waith ar hyn o bryd am gyfnod o rhai wythnosau yn dilyn llawdriniaeth ond fyddwn yn trafod y cam nesa gyda'n Rheolwr.</p> <p>Trafodwyd y mater. Mae'r llwybr yn boblogaidd iawn o fewn y pentref a mae pobl yn anwybyddu'r gwaharddiad sydd arno ar hyn o bryd. Rhagwelir os byddai'r tywydd yn helpu i wrthiad y coed a fyddai mewn tro yn gwrthiad y cerrig ar hyd top y wal, yna dim ond i'r llawr byddai'r cerrig yn syrthio. Penderfynwyd bod y Clerc yn anfon at Gyngor Gwynedd i ystyried ail-agor y llwybr gan gymryd camau i annog pobl i gerdded ar ganol y llwybr yn unig, efallai gosod ffens ar hyd yr ochrau sydd yn beryg.</p>	CLERC
9.0	MYNWENT, MAES PARCIO A SAFLE MORIA	
9.1	Dywedodd y Cynghorydd Casi Roberts bod angen arwydd newydd ar gyfer y compost yn y fywnent – bydd yn trefnu hyn.	CLERC – CR
9.2	Dywedodd y Cynghorydd Casi Roberts ei bod wedi derbyn pris ar gyfer gwelliant Safle Moreia. Roedd yn disgwyl prisiau eraill. Penderfynwyd byddai Safle Moreia yn destun prosiect cymunedol am y flwyddyn. Dywedodd y Swyddog Ariannol bod arian wedi ei glustnodi ar gyfer prosiectau cymunedol.	CR
9.3	Dywedodd y Cynghorydd Daniel Hughes bod panel ffens ar y Lon Las ger y Maes Parcio wedi torri. Pwrpas y ffens yma oedd sicrhau preifatrwydd trigolion Ffordd Bangor. Y Cynghorydd Daniel Williams i symud ymlaen i gael contractwr	

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	i gwblhau'r gwaith. Bydd y Cynghorydd Daniel Williams hefyd yn trefnu i ymweld â chontractwr yn y Maes Parcio i drefnu bod gwaith ar y wal yn cael ei weithredu. Mae pris i drwsio'r wal heb ei dderbyn eto.	
10.0	PROSIECTAU	
10.1	<p>Cynllun Lan y Môr bron wedi ei gwblhau. Dim ond gwaith snags ar ôl. Visirail wedi ei archebu – gobeithir bydd hyn wedi ei gwblhau yn yr wythnosau nesaf.</p> <p>Toriad gwair i'r ardal y prosiect angen ei wneud, yna bydd Cyngor Gwynedd yn cymryd cyfrifoldeb am y torri wedyn - yn unol â chontract sydd mewn bodolaeth rhwng y Cyngor Cymuned a Chyngor Gwynedd.</p> <p>Roedd y fainc sydd angen eu gosod o fewn y Cae Chwarae wedi eu symud yno yn ddi arwybod i'r Cyngor Cymuned. Yn anffodus nid oedd wedu eu rhoi yn ddiogel (Diolch i'r CYnghorwyr Dan Williams a Emyr Gareth), bellach mae wedi eu rhoi yn ddigol hyd nes bydd yn cael eu gosod ar y lleoliad newydd gan OBR.</p>	EG,
10.3	Toiledau - mae cais wedi ei wneud i Gyngor Gwynedd ar gyfer cael mynediad i gefn y toiledau a hefyd i gael defnydd o'r trydan. Nod oes ymateb wedi od gan Gyngor Gwynedd. Y Clerc i wneud ymholiad arall.	CLERC
10.4	<p>Cynllun Llifogydd Cymunedol – 24 manylion cyswllt wedi ei anfon at Cyfoeth Naturiol CYmru. Bydd y manylion rwan yn cael eu gosod ar bas data CNC ac yna os bydd tywydd garw bydd y cysylltiadau yn debyn gwybodaeth.</p> <p>Mae'r gwaith ar y cynllun yn symud ymlaen, er nid fydd yn cael blaenaoriaeth am ychydig oherwydd bod y blaenoriaeth yn mynd i gael ei roi at ail-agor y Neuadd.</p>	
11.0	NEUADD GOFFA A CHLOC	
11.1	<p>Cyflwynodd y Cynghorydd Daniel Williams adroddiad ar ail-agor y Neuadd. Gweler yr adroddiad yn atodiad 1. Penderfynwyd ail agor y Neuadd i ddau ddigwyddiad am y mis cyntaf sef, Y Guides a Brownies ar ddydd Llun ac yna Bowls ar ddydd Iau.</p> <p>Penderfynwyd hefyd bod y Gofalwraig yn ail dechrau are u gwaith o fory ymlaen.</p> <p>Dywedodd y Cynghorydd Daniel Williams bod angen trwsio llawr y Neuadd ger drws Tân ochr Gaernarfon. Mae'r llawr wedi pydru oherwydd gwlybanaiaeth. Mae coed wedi ei roi yno ar hyn o bryd arno ond bydd angen symud ymlaen i'w drwsio. Bydd y Cynghorydd Daniel Williams yn trefnu contractwr i edrych ar y gwaith. Efallai bydd hyn yn gyfle i alluogi cael trefnu gwneud mynediad i'r hen ystafell boiler y Neuadd. Mae hyn yn angenrheidiol gogyfer delio a'r tamprwydd sydd yn dod i mewn i ran gwaelod o'r Neuadd.</p>	DW

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	<p>Tra bo'r gwaith yma yn mynd yn ei flaen bydd y drws yma ddim ar gael, yr asesiad risg tân i adlewyrchu hyn ac arwyddion i'w gosod ar y safle.</p> <p>Mae rhan ochr Bangor gwaelod y Neuadd o ran tamprwydd wedi gwella. Mae rhan gwaelod y Neuadd angen offer "mechanical Ventilation with heat recovery".</p> <p>Mae pris o £380 wedi ei dderbyn gogyfer y drws tân yng ngwaelod y neuadd. Derbyniwyd y pris a chytuno i'r gwaith gael ei wneud.</p>	
12.0	GWEFAN	
	<p>Gwaith yn parhau i ddiweddarau'r wefan.</p> <p>Y Cynghorydd Iestyn Harris a'r Cynghorydd Casi Roberts i gysylltu â'i gilydd er mwyn gallu cael copi o'r gwaith digidol plant yr Ysgol Gynradd. Bydd y Cynghorydd Casi Roberts yn edrych ar sut y gellir sortio'r gwaith ar gyfer ei osod ar y wefan a thudalen facebook y Cyngor.</p>	<p>CLERC</p> <p>CR/IH</p>
13.0	<p>Cae Ysgol - Dim gwybodaeth i law.</p> <p>Dywedodd Y Cynghorydd Iestyn Harris ei fod wedi bod yn absennol o gyfarfod diwethaf y llywodraethwyr ond ei fod ar ddeall bod y mater wedi ei anfon ymlaen at Gyngor Gwynedd oedd yn rhoi cymorth i'r ysgol gyda'r gwaith o osod y gwaith i'r contractwr pan wnaethpwyd y gwaith yn ddiweddar.</p> <p>Cafwyd gwybodaeth oddi wrth y Cynghorydd Emyr Gareth bod tyllau o fewn y cae yn gwneud y cae yn un peryglus a bod y rhan lle mae'r tyllu yn gorfod cael eu cau i ffwrdd rhag eu bod yn cael eu defnyddio. Tybir bod y tyllau yn fwy na mater o'r tir yn cael eu herydu gan dywydd drwg.</p> <p>Y Cynghorydd Iestyn Harris am ddod a'r mater I sylw y brif athrawes.</p>	CLERC/CR/IH
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 21:45	
Llofnod:		Dyddiad:

ATODIAD 1

Adroddiad o gyfarfod Is Bwyllgor Neuadd – Cyngor Cymuned Y Felinheli

Dyddiad Nos Fawrth 4/5/2021

Presennol: Daniel Williams (cadeirio), Casi Roberts, Iestyn Harris, Dafydd Huws
Heather Jones (Clerc)

Ymddiheuriadau: Llyr Evans

Adroddwyd y canlynol:

- 1) Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi caniatad I Ganolfannau Cymunedol I agor gyda amodau.

Gweler:

Defnyddio canolfannau cymunedol amlbwrpas yn ddiogel (COVID-19)

Cyhoeddwyd gyntaf - 30 Gorffennaf 2020


Diweddariad diwethaf: 23 Tachwedd 2020

https://llyw.cymru/defnyddio-canolfannau-cymunedol-amlbwrpas-yn-ddiogel-covid-19?_ga=2.190173096.208446676.1620636259-1153580421.1620210315

- 2) Rydym ar ddeall bod y nifer o achosion o COVID-19 yn ardal Y Felinheli yn isel.

<https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-52380643>

Gwynedd = 10.4 per 100,000 population



- 3) Mae yna alw I ddefnyddio yr adeilad gan ein defnyddwyr rheolaidd.

Mae y Brownies eisiau cynnal nosweithiau cyn yr haf. Ar Nos Lun

Mae'r clwb Bowlïo yn dymuno chwarae drwy'r haf ac wedyn parhau drwodd i dymor y gaef. Un sesiwn ar ddydd Iau o 13-00 tan 16-00

- 4) Mae yr ofalwraig yn edrych ymlaen I ddychwelyd I'w gwaith

- 5) Mae'r ysgol yn ymwybodol o'r bwriad i ail agor y Neuadd I'r Brownies ac yn hapus hefo'r trefniant.

- 6) Mae yr Is bwyllgor yn cydnabod buddiant cymdeithasol o agor y Neuadd mor fuan a sydd bosib.

- 7) Maent yn cydnabod y bydd incwm i'r neuadd yn isel tra bydd cyfyngiadau ar bartis i blant neu oedolion.

Cynnig

Mae yr is bwyllgor yn argymhell ail agor y neuadd.

Cynigir bod yr ofalwraig yn dychwelyd i'w gwaith o ddydd Mercher 12fed o Fai 2021.

Bydd y Neuadd ar agor o ddydd Llun 17fed o Fai 2021 I nifer gyfyngiedig o ddefnyddwyr rheolaidd yn unig am y mis cyntaf.

Bydd y Brownies yn defnyddio y Neuadd ar Nos Lun a'r clwb Bowlio yn defnyddio y Neuadd ar brynhawn dydd Iau.

Bydd y trefniant yma yn lleihau y risg o ledaeniad COVID-19 o grwp I grwp gan fod dros 48 awr rhwng y digwyddiadau.

Bydd y Neuadd yn cael ei ddiheintio cyn y digwyddiadau.

Bydd y defnydd cyfyngedig yma yn gadael I'r is-bwyllgor yr ofalwraig a'r defnyddwyr I adolygu ac I ddatblygu gweithdrefnau effeithiol ac effeithlon.

Bydd yr is bwyllgor yn adolygu y sefyllfa yn rheolaidd – pob pythefnos I ddechrau – gyda'r bwriad o ehangu y defnydd yn raddol.

Asesiadau Risg

Mae'r Is Bwyllgor Neuadd wedi paratoi Asesiad Risg COVID-19 a gweithdrefnau.

Mae yr is bwyllgor wedi derbyn asesiadau risg gan y Brownies a'r Clwb Bowlio.

Bydd rhain I gyd yn cael ei adolygu a'I diweddarau yn sgil y wybodaeth ddiweddaraf a'r paratoadau sydd wedi ei gwneud yn y Neuadd.

Bydd yr asesiadau risg yn cynnwys gwybodaeth am uchafswm defnyddwyr mewn gweithgaredd.

Paratoadau

Mae Arwyddion wedi eu gosod yn y Neuadd.

Mae'r neuadd wedi ei gofrestru hefo'r system Track and Trace y llywodraeth ac arwydd hefo QR Code wedi ei osod yn y Neuadd.

Bydd cofnodi defnyddwyr unigol yn ddyletswydd I'r defnyddwyr.

Mae diheintydd dwylo wedi ei osod ger y prif ddrws i'r neuadd a ger y fynedfa dan ochor Bangor ger y mynediad i'r balconi. Bydd hyn yn galluogi trefn Un Ffordd os oes angen gyda diheintydd ar bob drws.

Mae offer didoli toveli papur wedi eu gosod yn y gegin, toiled dynion, toiled anabl, toiled merched. Bydd hyn yn lleihau defnydd peiriant sychu dwylo drwy chwythu awyr.

Mae cwpwrdd wedi ei osod yn y gegin i gadw defnyddiau glanhau allan o afael plant.

Mae sgrin blastig wedi ei osod yn yr hatch rhwng y gegin a'r cyntedd.

Diffygion

- 1) Mae'r drws Tan sydd ar waelod y grisiau i'r gofod islawr yn anodd ei agor. Mae ymgwymerwr lleol am ei drwsio.
- 2) Mae y llawr tu mewn I'r drws tan ochor Caernarfon yn y neuadd fawr wedi pydru. Mae board plywood wedi ei osod dros y darn diffygiol. Byddwn yn cael barn ymgwymerwr lleol ar beth I'w wneud nesaf.